

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	4 Rhagfyr 2019
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Newidiadau Arfaethedig i Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu Tacsï

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn am gymeradwyaeth Aelodau ar gyfer newidiadau arfaethedig mewn ffioedd a thaliadau i'r drefn trwyddedu tacsï.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1. Gofynnir i'r aelodau ystyried cymeradwyo ffioedd diwygiedig ar gyfer trefn Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat sef gweithredwr, cerbyd, rhai mathau o drwyddedau gyrrwr a phrofion gwybodaeth.

3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("y Ddeddf") yn caniatáu'r Cyngor i godi ffioedd i roi trwyddedau mewn perthynas â gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat, cerbydau a gweithredwyr.

4.2 Gellir adfer cost cyflwyno a gweinyddu yn ffioedd trwydded gyrwyr. Mewn perthynas â thrwyddedau cerbyd a gweithredwr, gellir cynnwys cost rhesymol archwilio cerbydau, darparu stand cerbydau hacni ac unrhyw gostau gweinyddu rhesymol neu gostau eraill mewn cysylltiad â'r blaenorol a chyda rheoli a goruchwylio cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn y ffioedd.

- 4.3 Ni ellir cynnwys y gost ar gyfer gorfodi gyrwyr, cerbydau neu weithredwyr heb drwydded yn y cyfrifiad.
- 4.4 Ni all y Cyngor wneud elw o ffioedd trwydded a dylid dygwyl ymlaen unrhyw weddill, i'r gwrthwyneb gellir hefyd adfer unrhyw ddiffyg. Mae cysoni unrhyw weddill a diffyg dros gyfnod o dair blynedd.
- 4.5 Ers Hydref 2015 gellir cyflwyno trwyddedau am fwyafswm o 5 mlynedd i weithredwyr, 3 blynedd i yrwyr a blwyddyn i gerbydau ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r arfer hwn.
- 4.6 Mae methodoleg ffioedd a thaliadau wedi'i ddyfeisio i alluogi adolygiad manwl o ffioedd a thaliadau yn unol â'r broses drwyddedu berthnasol.
- 4.7 Mae'r strwythurau ffioedd presennol ac arfaethedig yn Atodiad A.
- 4.8 Roedd y cynnydd diwethaf mewn ffioedd a thaliadau trwyddedu tacsï yn Ebrill 2018, er mae'r ffioedd ar gyfer cerbydau wedi aros yr un fath am 11 mlynedd.
- 4.9 Mae deddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer cyhoeddi trwydded am gyfnod byrrach mewn amgylchiadau arbennig mewn achos unigol, ond mae'n rhaid i hyn fod o ganlyniad i achos unigol, nid oherwydd polisi cyffredinol.
- 4.10 Bydd aelodau yn dymuno nodi os byddant yn cymeradwyo'r tabl ffioedd diwygiedig yna mae Adran 70 o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hysbysebu yn y wasg leol gan roi o leiaf 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiad.
- 4.11 Os bydd yna unrhyw wrthwynebiad o ganlyniad i hysbysebu, yna bydd angen ystyried y rhain ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn, ynghyd ag unrhyw adolygiadau a ystyrir yn briodol.
- 4.12 Os nad oes unrhyw wrthwynebiad yna bydd y ffioedd hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.
- 4.13 Mae'n hanfodol bod ffioedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod ffioedd yn gymesur ac yn unol â chostau perthnasol. O ystyried y gall costau cysylltiedig gynyddu yn flynyddol ac y gall prosesau newid mae swyddogion yn cynnal adolygiad yn flynyddol.
- 4.14 Yn olaf, mae Swyddogion yn dymuno atgoffa Aelodau ers cyflwyno'r trwyddedau gyrru bob tair blynedd, mae gyrwyr yn dilyn proses GDG 3 blynedd ac i sicrhau nad yw gyrwyr y tu allan i'r cylch GDG o dan anfantais, mae'r trwyddedau blynyddol yn cael eu cynnal nes bydd GDG gyrrwr yn

ddyledus. Bydd Aelodau hefyd yn cofio bod y gwasanaeth GDG ar gontract a bod gyrwyr nawr yn gyfrifol am drefnu eu gwiriadau GDG eu hunain. Nid yw cost hyn wedi'i gynnwys yn y ffi trwydded yrru.

5.0 YMGYNGHORIADAU

5.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.10 uchod mae'n ofynnol cyhoeddi ffioedd arfaethedig sydd wedyn yn ddarostyngedig i gyfnod gwrthwynebiad 28 diwrnod.

5.2

Mae'r Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd wedi adolygu'r ffioedd arfaethedig ac yn cefnogi'r rhai a restrir yn Atodiad A.

6.0

ARGYMHELLION

6.1

Bod yr Aelodau yn:

- 1) Cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau fel y manylwyd yn Atodiad A.
- 2) Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r newidiadau arfaethedig i'r ffioedd Trwyddedu Tacsï mewn papur newydd lleol ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.
- 3) Lle derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn eu cyfarfod nesaf gyda'r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach nag 1 Ebrill 2020.